# Uwch Gymedrolwr,
# Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch,
# Project Cymuned Fyd-eang
## Proffil y Rôl a Ffurflen Gais

## PROFFIL Y RÔL

**Diben:**

Mae CBAC yn recriwtio ar gyfer Uwch Gymedrolwr ar gyfer y cymhwyster newydd. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gyfrifol am asesu'r Project Cymuned Fyd-eang. Cyfrifoldeb Uwch Gymedrolwr yw gosod y safonau a sicrhau safoni y broses gymedroli.

**Cyfrifoldebau:**

- Arwain ar ddeall y safon ar gyfer bandiau marciau yn y grid asesu ar gyfer y gydran
- rhoi cyngor ar benodi, hyfforddi ac ailbenodi arweinwyr tîm a chymedrolwyr ar gyfer y gydran, lle bo angen gwneud hynny
- arwain y gynhadledd hyfforddi cymedrolwyr gan hyfforddi cymedrolwyr ar y safon y cytunwyd arni ar gyfer marcio ar amrywiaeth o sgriptiau
- monitro safonau cymedroli'r holl gymedrolwyr ar gyfer y gydran, trwy gydol y cyfnod cymedroli, gan gynnwys unrhyw arweinwyr tîm gan weithredu'n briodol i sicrhau cywirdeb a chysondeb
- mynd i'r cyfarfod dyfarnu, rhoi cyngor i aelodau ar sut gweithiodd yr asesiad ac argymell ystodau marciau rhagarweiniol ar gyfer y ffiniau gradd yn ôl barn ar gyfer y gydran
- cyflwyno adroddiad gwerthuso'r Prif Gymedrolwr ar berfformiad y gydran a'r asesiadau

Mae angen i Uwch Gymedrolwyr fod ar gael am o leiaf ddeg diwrnod y flwyddyn. Gall y cyfnod hwn gynnwys dyddiau yn ystod y tymor, ar benwythnosau ac yn ystod y gwyliau. Mae tâl rhyddhau ar gael i ganolfannau. Bydd hyn yn galluogi deiliad y swydd i gymedroli arweinwyr tîm ar gyfer cyfres Ionawr a Mehefin (dau ddiwrnod), mynd i gynhadledd cymedrolwyr ar gyfer cyfres Ionawr a Mehefin (dau ddiwrnod), a mynd i'r cynadleddau cyn dyfarnu a dyfarnu ym mis Chwefror a mis Gorffennaf (pedwar diwrnod).

**Profiad/cymwysterau angenrheidiol:**

- gradd mewn pwnc sy'n berthnasol i'r gydran hon
- profiad asesu ac addysgu perthnasol
- profiad cymedroli perthnasol
- profiad rheoli pobl
- y gallu i weithio'n dda o dan bwysau

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Llinos Griffith ar 029 2026 5096 llinos.griffith@wjec.co.uk. Dylid cyflwyno ceisiadau erbyn dydd Gwener, 12fed o Ionawr 2024.

**Sut i wneud cais**:
Os ydych chi'n dymuno gwneud cais am y swydd, ac **nad ydych yn gweithio** i CBAC ar hyn o bryd, ewch i https://appointees.wjec.co.uk a chlicio 'Gwneud Cais i fod yn Arholwr' i lenwi'r ffurflen gais.

**Os ydych chi'n gweithio i CBAC ar hyn o bryd**, mewngofnodwch i'ch Cyfrif Porth Rheoli Penodedigion (gan ddefnyddio eich enw defnyddiwr newydd) a chliciwch ar yr eicon 'Fy Nghais' ar yr hafan. Gwnewch yn siŵr eich bod yn ychwanegu rôl **Uwch Gymedrolwr** ar gyfer **Project Cymuned Fyd-eang Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch** ar y tab 'maes pwnc. Sicrhewch eich bod yn llenwi meysydd eraill y cais, dylai'r Datganiad Crynhoi gyfeirio at y swydd hon.

Os oes angen unrhyw gymorth pellach arnoch wrth lenwi'r ffurflen gais, cysylltwch â:

| | | |
|---|---|---|
| Rob Reynolds | neu | Emily Safadi |
| rob.reynolds@wjec.co.uk | | emily.safadi@wjec.co.uk |
| 0290 265 050 | | 02920 265 305 |